





Y Gymraeg ar y Cyfryngau Cymdeithasol

i Fusnesau Gwynedd

Using Welsh on Social Media

for Gwynedd Businesses

ARFOR
CREU GWAITH - CEFNOGI'R IAITH

NRS
Nuclear Restoration Services

NDA

Busnes@
gwynedd.llyw.cymru

Pam defnyddio'r Gymraeg?

Why use Welsh on socials?



yn dweud fod gallu delio â busnes yn y Gymraeg yn gwneud iddynt deimlo fel eu bod yn cael eu gwerthfawrogi fel cwsmer

say that being able to deal with businesses in Welsh makes them feel valued as a customer



yn dweud eu bod yn fwy tebygol o ddefnyddio busnes sy'n cynnig gwasanaeth Cymraeg da

say that they are more inclined to choose a business that offers a good Welsh service



o'r boblogaeth yng Nghymru yn teimlo fod yr iaith Gymraeg yn rhywbeth i fod yn falch ohono

of the population in Wales think that the Welsh language is something to be proud of

Yn ôl ymchwil gan Comisiynydd y Gymraeg
These figures are from research by the Welsh Language Commissioner

Busnes@
gwynedd.llyw.cymru

Ar goll?

Ydych chi weithiau'n teimlo ar goll wrth bostio yn y Gymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol?

Ydych chi'n ansicr pa gynnwys i'w bostio, a sut i'w 'sgrifennu yn y Gymraeg a'r Saesneg?

Peidiwch â phoeni, mae llawer yn teimlo 'run fath!

Overwhelmed?

Do you sometimes feel overwhelmed when thinking about posting in Welsh on your socials?

Unsure of what to say, when to say it, or how to say it in both languages?

Don't worry, you're not alone. A lot of business feel exactly the same!

Cyfle...

Fel busnes yng Ngwynedd, mae gennych gyfle gwych i gyrraedd cwsmeriaid lleol yn eu mamiaith yn ogystal â thwristiaid drwy'r cyfryngau cymdeithasol.

Ond gall cyflwyno cynnwys yn y ddwy iaith deimlo fel gwaith ychwanegol ar ben rheoli eich busnes prysur o ddydd i ddydd. Nid yw pawb yn hyderus i 'sgrifennu yn y Gymraeg - ond peidiwch â gadael hynny eich stopio! Rydym yma i'ch helpu.

Opportunity...

As a business in Gwynedd, you have a fantastic opportunity to reach both local customers and tourists through bilingual social media.

But we know that posting in both languages can feel like extra work on top of managing a busy business. And not everyone feels confident in writing in Welsh - but don't let that stop you. We're here to help.

Amdani!

Beth am roi cynnwys dwyieithog ar y cyfryngau cymdeithasol er mwyn denu cwsmeriaid newydd a chadw'r rhai presennol?

Os ydych yn cynnig gwasanaeth yn y Gymraeg, manteisiwch ar hynny fel pwynt gwerthu unigryw.

Dangoswch i'r byd pwy ydych chi fel busnes llwyddiannus yng Ngwynedd.

Go for it!

Let's use bilingual social media to attract new customers and keep existing ones.

If you offer a Welsh language service, take advantage of that and use it as one of your USPs.

Show the world who you are as a successful business in Gwynedd.

Dyddiadau i'w Nodi
Important Days

IONAWR January — 25

Santes Dwynwen

Gwych ar gyfer bwytai a siopau anrhegion neu unrhyw fusnes sydd eisiau dathlu diwrnod y cariadon. Great for restaurants and gift shops or any business that wants to celebrate love. #santesdwynwen

CHWEFROR February — amrywio varies

Dydd Miwsig Cymru

Ar gyfer unrhyw fusnes sydd eisiau ymfalchïo yng ngherddoriaeth Cymraeg. For any business to highlight Welsh music culture on socials. #dyddmiwsigcymru #miwsig #welshlanguagemusicday

MAWRTH March — 01

Dydd Gŵyl Dewi

Cyfle i greu cynnwys i ddathlu diwylliant Cymru. Connect with your audience by celebrating Welsh culture. #dyddgwyldewi #stdavidsday

EBRILL April — 01

Ffŵl Ebrill

Rhywbeth ysgafn sy'n dangos personoliaeth a 'chydig o hiwmor. A lighthearted post that shows personality and humour. #ffwlebrill #aprilfoolsday

MAI May — amrywio varies

Gŵyl Banc

Creu post sy'n dangos y lleoliad a'r cynnyrch/gwasanaeth sy'n cael ei gynnig er mwyn denu cwsmeriaid newydd. Entice customers by showcasing the location, and the product/service you offer. #gwylbanc #bankholiday

MEHEFIN June — amrywio varies

Mis Pride

Dangos eich cefnogaeth i'r gymuned LGBTQ+ yng Nghymru. Show support for the LGBTQ+ community in Wales. #mispride #pridemonth

Dyddiadau i'w Nodi
Important Days

Gwyliau'r Haf

Cyfnod prysur i fusnesau sy'n darparu gwasanaeth i dwristiaid yn ogystal â phobl leol yng Ngwynedd. Peak season for tourism-related businesses, attracting tourists and locals. #haf #gwyliauhaf #summer

amrywio varies **GORFFENNAF** July

Eisteddfod Gendlaethol

Creu cynnwrf os yw'r 'Steddfod yn yr ardal, neu hel atgofion o Eisteddfodau blaenorol. Join the excitement when the Eisteddfod is in the area, or share memories from past Eisteddfodau. #eisteddfodgenedlaethol

amrywio varies **AWST** August

Dydd Owain Glyndŵr

Diwrnod i ddathlu arwr cenedlaethol Cymreig a Thywysog brodorol olaf Cymru. A day to commemorate Owain Glwyndŵr, the last native Prince of Wales. #dyddowainglyndŵr

16 **MEDI** September

Diwrnod Shwmae Su'mae

Cael hwyl wrth annog y gymuned i ddechrau pob sgwrs gyda "su'mae". Encourage everyone in the community to start every conversation with "su'mae". #shwmaesumae

15 **HYDREF** October

Cynigion Dydd Gwener Du

Annog pobl i siopa'n lleol. Encourage people to support local businesses. #dyddgwenerdu #blackfriday #cefnogibusnesaubach

amrywio varies **TACHWEDD** November

Nadolig

Mae nifer o fusnesau yn cymryd saib ar ôl y cyfnod prysur tra bod eraill yn hyrwyddo cynigion arbennig. After a busy period, a lot of businesses are slowing down while others are promoting special offers. #nadolig

25 **RHAGFYR** December

Cynnwys defnyddiol
Useful content

Oriau Agor

"Dyma ein horiau agor newydd"

"Ymddiheuriadau - rydym ar gau heddiw."

"Mi fydd ein horiau agor yn newid dros [yr haf | y Pasg | y 'Dolig | y gaeaf | y penwythnos]"

- Ar agor nawr
- Ar gau
- Newid mewn oriau
- Archebwch
- Archebwch ymlaen llaw
- Ar gael ar-lein
- Postio / cludiant am ddim
- Casglwch o'r siop
- Ymholiadau

Opening Times

"Our new opening times are."

"Sorry - we're closed today."

"Our opening times will change over [the summer | Easter | Christmas | the winter | the weekend]

- Now open
- Closed
- Change in hours
- Book now
- Book in advance
- Available online
- Free delivery
- Click and collect
- Enquiries

Cynigion Arbennig

- Cynnig arbennig
- Gostyngiad
- Dim ond am gyfnod byr
- Cynnyrch newydd
- Rhad ac am ddim
- 20% i ffwrdd
- Prynu un, cael un am ddim
- Cynigion yr wythnos hon

Promotions

- Special offer
- Discount
- Limited time only
- New product
- Free
- 20% off
- Buy one, get one free
- This week's offers

Pwy 'di Pwy?

- Dyma gyflwyno [ENW]
- Tu ôl i'r llenni
- Diwrnod arferol yn..
- Dewch i gyfarfod
- Diwrnod ym mywyd...
- Holwch fi / Gofynnwch unrhyw beth

Meet the Team

- Introducing [NAME]
- Behind the scenes
- Your usual day at...
- Come and meet...
- A day in the life of...
- Ask me anything

Cynnwys defnyddiol
Useful content

Ein Cwsmeriaid

- Adolygiadau
- Diolch am eich cefnogaeth
- Cwestiynau cyffredin
- Cysylltwch â ni
- Gadewch sylw
- Rhannwch eich profiad
- Dilynwch ni
- Hwn neu'r llall?
- Tagiwch ni yn eich lluniau!

Your Customers

- Reviews
- Thank you for your support
- Frequently asked questions
- Contact us
- Leave a comment
- Share your experience
- Follow us
- This or that?
- Tag us in your photos!

Digwyddiadau

- Digwyddiad nesaf
- Cofiwch
- Dyddiadau i'w nodi
- Dewch i gwrdd â ni
- Gweithdy
- Trafodaeth / sgwrs
- Lansiad / Noson lansio

Events

- Next Event
- Don't forget
- Dates for your diary
- Come meet us
- Workshop
- Discussion
- Launch / Launch night

Tymhorol

- Nadolig Llawen
- Blwyddyn Newydd Dda
- Pasg Hapus
- Cynnig yr wythnos
- Ar gau dros y gwyliau
- Dydd Santes Dwynwen Hapus
- Dydd Gŵyl Dewi Hapus

Seasonal

- Merry Christmas
- Happy New Year
- Happy Easter
- This week's special offer
- Closed for the holidays
- Happy St Dwynwen's Day
- Happy St David's Day

Galwad i Weithredu

- Dewch i siopa!
- Trefnwch eich apwyntiad heddiw!
- Dilynwch ni am y diweddaraf!
- Cofrestrwch ar gyfer ein newyddlen!
- Ewch i'n gwefan am fwy o wybodaeth

Call to Action

- Shop now!
- Book your appointment today!
- Follow us for more updates!
- Sign up for our newsletter!
- Visit our website for more information

Cynnwys defnyddiol
Useful content

Bwyd a Diod

- Bwydlen arbennig
- Bwydlen y dydd
- Wedi'i bobi'n ffres
- Cynhwysion lleol
- Cynnyrch tymhorol
- Cyflenwyr lleol
- Organig
- O'r pridd i'r plât
- Bargen cinio
- Cynigion prynhawn
- Coffi a chacen
- Te prynhawn
- Digwyddiad blasu gwin
- Noson thema

Food and Drink

- Special menu
- Menu of the day
- Freshly baked
- Local ingredients
- Seasonal produce
- Local suppliers
- Organic
- Farm to table
- Lunch deal
- Afternoon offers
- Coffee and cake
- Afternoon tea
- Wine tasting event
- Theme night

Busnesau Bach

- Busnes lleol
- Yn cefnogi busnesau bach Cymru
- Wedi'i wneud yng Nghymru
- Cynhyrchwyr lleol
- Yn cefnogi'r gymuned
- Siopa'n lleol
- Busnes yng Ngogledd Cymru

Small Businesses

- Local business
- Supporting small Welsh businesses
- Made in Wales
- Local producers
- Supporting the community
- Siop local
- Business in North Wales

Cyfarchion

- Bore da
- P'nawn da
- Dydd [Llun/Mawrth/Mercher/Iau/Gwener/Sadwrn/Sul] Hapus!
- Gwenwch, mae'n ddydd Gwener!
- Barod am y penwythnos
- Croeso
- Ymunwch â ni

Greetings

- Good morning
- Good afternoon
- Happy [Monday/Tuesday/Wednesday/Thursday/Friday/Saturday/Sunday!]
- Smile, it's Friday!
- Ready for the weekend
- Welcome
- Join us

Awgrymiadau
Top Tips



Gifs

Ar Instagram, mae dewis eang o gifs Cymraeg y gallwch eu defnyddio wrth greu stori.


Scroll through the Welsh gifs available when posting a story. Start typing the word in the search bar.



Miwsig

Defnyddiwch yr ystod eang o gerddoriaeth Cymraeg poblogaidd ar Instagram.


Switch to a creator account for a wider selection of music, including popular Welsh music.



Dwyieithog

Mae creu cynnwys yn ddwyieithog yn gallu helpu i gyrraedd cynulleidfa ehangach tra hefyd yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg.

Creating bilingual posts can help to reach a wider audience while also promoting the Welsh language.



Hashnodau | Allweddeiriau

Defnyddiwch hashnodau a geiriau Cymraeg sy'n berthnasol i'ch busnes - bydd yn gwella'r cyfle i ddilynwyr newydd yn eich gweld.

Incorporate Welsh hashtags and keywords that is relevant to your business - this will increase the chance of new followers finding your business on socials.



Collabs

Beth am gydweithio gyda busnesau lleol eraill drwy wneud 'collab' gyda nhw? Gall dilynwyr y busnes arall hefyd weld y post.


Partner with local Welsh businesses or influencers to create content. This will help your post get a wider reach.



Diwylliant

Byddwch yn falch o'n diwylliant! Defnyddiwch yr enwau Cymraeg ar gyfer lleoliadau yn hytrach na'r fersiwn Saesneg. Beth am arddangos ein digwyddiadau lleol, ein hiaith a'r dirwedd fendigedig - gwnewch y cynnwys yn berthnasol i'r gynulleidfa.

Be proud of your culture! Use the Welsh names for locations, showcase our local events, language and landscape - make it relevant for the audience.



Cysondeb

Cadwch eich brand a'ch postiadau'n gyson o ran arddull. Bydd hyn yn helpu eich dilynwyr i ymddiried ynddoch chi ac yn cadw'ch busnes ym meddyliau eich cynulleidfa, gan eu gwneud yn fwy tebygol o ymgysylltu â'ch cynnwys.

Keep your brand and posts consistent in style. This will build trust and keeps your business in your audience's minds, making them more likely to engage with your content.

Adnoddau Tools

Helo Blod

Gwasanaeth cyfieithu a phrawf-ddarllen i'ch helpu i ddefnyddio mwy o Gymraeg yn eich busnes yn rhad ac am ddim. A free translation and proofreading service to help you use more Welsh in your business.
https://busnescymru.llyw.cymru/heloblod/

Canolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Mae'r ganolfan yn cynnig ystod o gyrsiau i ddysgu'r Gymraeg, codi hyder a gloywi iaith. The centre offers a wide range of Welsh courses from beginners, to confidence building and refresher courses. https://dysgucymraeg.cymru/

Comisiynydd y Gymraeg | Welsh Language Comissioner

Hybu, hwyluso a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn eich busnes. Promoting, facilitating and supporting the use of the Welsh language.
https://www.comisiynyddygymraeg.cymru/

Porth Technolegau Iaith Cenedlaethol Cymru

Technolegau sy'n addas i bawb, o'r cynorthwyydd digidol Cymraeg, Macsen i'r Trawsgrifiwr, sy'n trawsgrifio Cymraeg llafar i destun. Suitable for everyone, from the Welsh digital assistant, Macsen to the Transcriber, which transcribes spoken Welsh into text. https://techiaith.cymru

Canolfan Bedwyr

Canolfan Gwasanaethau, Technoleg ac Ymchwil Cymraeg Prifysgol Bangor sy'n cynnig amrywiaeth o gyrsiau, adnoddau fel Cysill a Cysgeir, y Porth Termau a'r Porth Technolegau. Bangor University's Centre for Welsh Language Services, Research and Technology, offering a range of courses and resources such as Cysill, Cysgeir, Terminology Portal and Technologies Portal.
https://www.bangor.ac.uk/cy/canolfan-bedwyr/technolegau-iaith

Menter Iaith Gwynedd

Helpu busnesau i fod yn rhan o ymgyrch Hapus i Siarad, sy'n annog staff a dysgwyr i drio defnyddio'r Gymraeg mewn busnesau. Helping businesses to be part of the Hapus i Siarad (Happy to Talk) campaign, encouraging staff and learners to try using Welsh in businesses. www.menteriaithgwynedd.cymru

Busnes@, Cyngor Gwynedd

Mae Busnes@ Gwynedd yn cynnig cefnogaeth a gwybodaeth i funsesau lleol. Busnes@ Gwynedd is available to provide support and information to local businesses. https://linktr.ee/BusnesGwynedd

Ewch Amdani!
Go for it!

Gall postio yn y Gymraeg a'r Saesneg deimlo'n dipyn o waith i ddechrau — ond gyda 'chydig o gymorth, mi ddaw yn haws bob tro.

Gobeithio bod y canllaw yma wedi helpu i symleiddio'r gwaith, a rhoi digon o hyder i chi fynd amdani.

Mae bod yn ddwyieithog ar y cyfryngau cymdeithasol yn arf cryf i gysylltu â'ch cymuned a dangos gwir bersonoliaeth eich busnes. Mae'n ffordd wych o sefyll allan yma yng Ngwynedd.

Posting in both Welsh and English might feel like a big task at first — but with a little guidance, it becomes second nature.

Hopefully, this guide has helped to simplify the process and given you the confidence to give it a go.

Bilingual social media isn't just about ticking a box — it's a real asset. It helps you engage with your audience and make your business stand out.



Busnes@
gwynedd.llyw.cymru